Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council


# Strategaeth Treftadaeth 2024-2039

## Crynodeb



# Adfer, Adfywio, Addasu

Gwnaed yn bosibl gan
Cronfa Treftadaeth
Made possible with
Heritage Fund



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **EIN GWELEDIGAETH** | **03** |
| **EIN STRATEGAETH** | **04** |
| **EIN LLE A'N STORI** | **06** |
| **EIN TREFTADAETH** | **07** |
| **EIN THEMÂU A'N HAMCANION** | **10** |
| **EIN CYD-DESTUN POLISI** | **12** |
| **EIN CYNLLUN GWEITHREDU** | **13** |
| **MAE EIN STORI'N PARHAU** | **14** |
| **EIN LLWYDDIANNAU** | **15** |


I weld fersiwn lawn o'r cynllun, ewch i www.npt.gov.uk

Pont Ddŵr y Bont Fawr, Pontrhydyfen



# Ein Gweledigaeth

## Sicrhau bod treftadaeth Castell-nedd Port Talbot yn cael ei chadw a'i diogelu, a'i bod yn gynaliadwy.

Gerddi Victoria, Castell-nedd


# Ein Strategaeth

Treftadaeth Castell-nedd Port Talbot yw un o'n prif asedau. Mae'n ffurfio ein cymeriad. Mae'n hybu ffyniant economaidd. Mae'n gwella llesiant ac ansawdd bywyd. Mae hefyd yn helpu i ddenu mewnfuddsoddi a chreu cyflogaeth. Mae ein treftadaeth, felly, yn sylfaen i'n hunaniaeth ac yn gwneud Castell-nedd Port Talbot yn lle mwy deniadol i fyw, gweithio, buddsoddi a llwyddo ynddo, ac i ymweld ag ef.

Mae ein treftadaeth yn adrodd hanes ein gorffennol ac yn ffurfio'n presennol. Nawr gall helpu i adfywio a dylanwadu ar ein dyfodol. Bydd treftadaeth yn rhan allweddol o gyflawni bwriad y Cyngor: helpu preswylwyr Castell-nedd Port Talbot i fyw bywydau da. I alluogi hyn, byddwn ni'n gweithio'n greadigol gyda rhanddeiliaid allweddol, ac yn rheoli ac yn diogelu ein hamgylchedd hanesyddol â dychymyg ac arloesedd.

Mae'r Strategaeth Treftadaeth yn gweithio ochr yn ochr â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC) i ddarparu sylfaen ar gyfer Strategaeth Diwylliant Castell-nedd Port Talbot, sy'n ceisio crisialu ein hysbryd diwylliannol unigryw a chyflwyno arlwy amrywiol, safonol o gelfyddydau, diwylliant, treftadaeth a chwaraeon i ymwelwyr a phreswylwyr.

Gweledigaeth ganolog y Strategaeth Treftadaeth yw sicrhau bod treftadaeth Castell-nedd Port Talbot yn cael ei chadw a'i diogelu mewn modd cynaliadwy. Mae "Adfer, Adfywio, Addasu" yn amlinellu mesurau a chamau gweithredu cyflawnadwy er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon.




**Iaith:**
Cymraeg, Saesneg a Ieithoedd amrywiol ein Bwrdeistref Sirol

**Pobl:**
Aelodau Clybiau, Grwpiau Cymunedol, Trigolion, Ymwelwyr a Gwirfoddolwyr

**Lleoedd:**
Cymunedau, Trefi, Dyffrynnoedd a Phentrefi

# Mae ffocws deublyg i'r strategaeth

Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol: y diwylliant ffisegol neu 'ddiriaethol', fel adeiladau a mannau hanesyddol, henebion ac arteffactau, safleoedd naturiol, cynefinoedd a thirluniau.

Dathlu, hyrwyddo a chefnogi'r rhai sy'n gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol a'n treftadaeth naturiol, a diogelu ein hasedau annirweddol: ein treftadaeth ddiwylliannol, ein hiaith, ein traddodiadau, ein harferion, ein mynegiant artistig ac agweddau eraill ar weithgarwch dynol.

Yn sgîl yr Ymgynghoriad ar y Strategaeth Treftadaeth yn hydref 2023, cafwyd y blaenoriaethau canlynol:

**I RANDDEILIAID:**

- Creu rhestr o brosiectau blaenoriaeth i'w cyflawni
- Datblygu rhwydweithio a dehongli i adrodd ein stori
- Sefydlu Tîm Cadwraeth/ Treftadaeth

**I GRWPIAU TREFTADAETH CYMUNEDOL:**

- Darparu cefnogaeth i grwpiau i'w helpu i gyrchu cyllid, a sicrhau bod y cyllid hwnnw yn cael ei wasgaru ar draws prosiectau llai, yn hytrach na mynd i brosiectau/safleoedd mwy o faint
- Mwy o gefnogaeth i wirfoddolwyr gan y Cyngor
- Meithrin gwydnwch hirdymor pobl a lleoedd



Parc Jersey, Llansawel

# Ein Lle a'n Stori

## Ein Lle

Fel lle, mae Castell-nedd Port Talbot yn adlewyrchu llawer o nodweddion ein cenedl Gymreig. Dyma lle mae'r dwyrain a'r gorllewin yn cyfarfod. Man llawn cyferbyniad lle ceir tirluniau naturiol hardd a dramatig yn gefnlen i'n hamgylchedd diwydiannol. Mae ein harfordir, ein mynyddoedd, ein hafonydd a'n cymoedd wedi denu pobl o bob rhan o'r byd i ymsefydlu a gweithio yma, a galw Castell-nedd Port Talbot yn gartref.

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth o 142,300, y mae 13.5% ohonynt yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2021). Maen nhw'n byw yn ein pum tref: Llansawel, Glyn-nedd, Castell-nedd, Pontardawe a Phort Talbot, a'n pum cwm: Afan, Aman, Dulais, Nedd a Thawe, ac yn ein cymunedau arfordirol a chymudol.

## Ein Stori

Ffurfiwyd ein stori gan ein gorffennol. Mae sut datblygodd yr ardal dros amser wedi effeithio ar yr etifeddiaeth hanesyddol, weledol a diwylliannol sy'n parhau. O'r cyfnod cynhanes, mae tonnau o newydd-ddyfodiaid wedi ymsefydlu yn yr ardal, ac wedi dylanwadu ar ddatblygiad ein trefi a'r cymunedau rhyng-gysylltiedig diweddarach.

Mae crefydd, bonheddwyr lleol a diwydiant i gyd wedi gadael eu hôl ar ein treftadaeth ac ar fywyd yma'n gyffredinol. Creodd y newid cyflym yn sgîl y chwyldro diwydiannol aneddiadau newydd, ac agor ardaloedd eang yn y sir i wasanaethu'r diwydiannau glo, haearn a dur. Trawsffurfiodd systemau trafnidiaeth newydd, fel y camlesi a'r rhwydwaith rheilffyrdd, ein tirlun diwylliannol a chymdeithasol. Mae ein holl asedau hanesyddol yn helpu i ddarlunio'n hanes o dwf a newid.

# Ein Treftadaeth

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot gasgliad neilltuol o asedau treftadaeth dynodedig ac amgylchedd adeiledig a naturiol o safon uchel iawn. Mae gan lawer o'n hasedau treftadaeth statws cyfun Heneb Gofrestredig ac Adeilad Rhestredig Dynodedig, sy'n arwydd o'u pwysigrwydd cenedlaethol a'u harwyddocâd i amgylchedd hanesyddol Cymru.

Mae ein hamgylchedd hanesyddol wedi bod yn rhan annatod o ehangu ein cymunedau a'n diwylliant dros y canrifoedd. Ein nod wrth symud ymlaen yw canolbwyntio ar y rhan allweddol y gall ein treftadaeth ei chyflawni wrth adfywio ac ailffurfio ein dyfodol.

## Arwyddocâd ein Treftadaeth


Yn aml nid yw arwyddocâd ein treftadaeth yn cael ei werthfawrogi na'i ddeall yn iawn. Nod y strategaeth yw dyrchafu ei phwysigrwydd ac amlygu'r manteision economaidd, cymdeithasol, llesol a diwylliannol a all ddeillio ohoni. Ein treftadaeth sy'n llywio ein hymdeimlad o hunaniaeth lleol ac unigrywiaeth. Mae'n hybu hyfywedd economaidd ac ansawdd bywyd. Mae'n cynnig cyfleoedd i bobl o bob oed ddysgu am hanes y lle hwn, a chyfraniad pobl gyffredin iddo, yn ogystal â'r rhai â chyfoeth a dylanwad, er mwyn creu'r ardal a welwn heddiw.



Tai'r Gelli, Cymer

# Ein Hasedau Treftadaeth

Mae dros 4309 o safleoedd o ddiddordeb hanesyddol wedi'u nodi ar y Cofnod o'r Amgylchedd Hanesyddol (HER). Ymhlith yr asedau eraill mae Archifau, safleoedd brwydrau, enwau lleoedd, llongddrylliadau a thrysorau eraill yn aros i'w darganfod. Cewch ragor o wybodaeth yn y diagram canlynol.




# Ein Treftadaeth mewn Perygl

Mae perygl i'n hasedau o sawl cyfeiriad, gan gynnwys troseddu a dirywiad cyffredinol, felly mae angen i ni eu diogelu. Mae ffocws ar gadwraeth a diogelu yn ganolog i'r strategaeth. Ac elfen allweddol o hynny yw sicrhau dealltwriaeth dda o arwyddocâd yr asedau gwerthfawr hyn.

Rhai enghreifftiau o droseddau treftadaeth yw lladrad, llosgi bwriadol, graffiti, defnyddio synwyryddion metel yn anghyfreithlon a gyrru cerbydau oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon, ond mae llawer mwy hefyd. Os yw'r drosedd yn digwydd ar y pryd, ffoniwch 999. Os yw wedi digwydd yn y gorffennol, ac rydych chithau newydd sylwi, rhowch wybod amdani ar 101, gan ddweud yr hoffech chi ei riportio o dan Ymgyrch Troseddau Treftadaeth Cymru – diben hynny yw sicrhau ei bod yn cael ei chofnodi'n gywir. I gael rhagor o wybodaeth am Droseddau Treftadaeth, gweler gwefan Cadw:

https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/troseddau-treftadaeth



Parc Margam, Port Talbot

# Ein Themâu a’n Hamcanion

Mae ein hamcanion yn deillio o 5 thema allweddol sy’n ffurfio strwythur y strategaeth.

### 1. DEALL EIN TREFTADAETH A’I HARWYDDOCÂD

- Hyrwyddo a chefnogi stiwardiaeth dda, gwella mynediad at wybodaeth a’i rhannu.
- Datblygu adnoddau, arbenigedd a sgiliau; nodi bylchau; a gwneud yn fawr o gyfleoedd i ddysgu a hyfforddi.
- Archwilio a hyrwyddo ‘stori’ Castell-nedd Port Talbot a dangos sut mae asedau treftadaeth yn ffitio i’r stori honno.

### 2. CADW EIN TREFTADAETH A BUDDSODDI YNDDI AR GYFER CENEDLAETHAU’R DYFODOL

- Monitro cyflwr ein hasedau treftadaeth yn rheolaidd.
- Ymrwymo buddsoddiad er mwyn cynnal ein hasedau treftadaeth.
- Sefydlu tîm amlddoniog o swyddogion i sicrhau bod asedau treftadaeth yn cael eu cynnal, eu rheoli a’u datblygu’n sensitif, a sicrhau cyllid a buddsoddiad ar gyfer prosiectau adnewyddu sy’n seiliedig ar dreftadaeth.

### 3. MANTEISIO AC ADEILADU AR EIN TREFTADAETH

- Hyrwyddo ein treftadaeth gyfoethog, ein diwylliant, a’n hamgylchedd hanesyddol o safon uchel fel rhan o frand lle’r cyngor, “Calon Ddramatig Cymru”.
- Annog datblygu sy’n parchu ein hamgylchedd hanesyddol, ac yn ei ddefnyddio i ysgogi dylunio llawn dychymyg, o safon.
- Mwyafu cyfleoedd i sicrhau cyllid er mwyn cyflawni prosiectau seiliedig ar dreftadaeth.

## 4. RHEOLAETH GADARNHAOL AR EIN TREFTADAETH

- Ymrwymo i reoli asedau treftadaeth CBSCNPT sydd “mewn perygl” yn rhagweithiol.
- Datblygu Cynllun Gweithredu a Chynlluniau Rheoli Cadwraeth i sicrhau bod asedau treftadaeth allweddol yn cael eu cadw a’u diogelu mewn ffordd gynaliadwy.
- Adolygu polisïau’r Cynllun Datblygu Lleol presennol a’r Canllawiau Cynllunio Atodol i sicrhau eu bod wedi’u diweddaru ac yn cael eu gweithredu’n gyson.
- Sefydlu rhaglen ar gyfer arfarnu, cynnal a rheoli asedau CBSCNPT, ac annog perchnogion asedau treftadaeth eraill i wneud yr un peth.
- Sicrhau perthynas waith gadarnhaol gyda chyrff treftadaeth lleol a chenedlaethol, rhanddeiliaid a grwpiau treftadaeth cymunedol.
- Nodi a diogelu asedau treftadaeth sydd heb eu dynodi, ond sydd ag arwyddocâd lleol.
- Cynnal rhestr seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) o asedau treftadaeth lleol.

## 5. DATHLU A HYRWYDDO EIN TREFTADAETH

- Dathlu, cefnogi a hyrwyddo cyflawniadau a gwaith cymunedau, grwpiau a gwirfoddolwyr sy’n hybu ein hamgylchedd hanesyddol.
- Cynorthwyo grwpiau cymuned a threftadaeth i gael mynediad at gyllid i’w galluogi i gynnal eu gwaith gwirfoddol hollbwysig.
- Hyrwyddo gwaith grwpiau cymuned a threftadaeth sydd eisoes yn bodoli, i hybu nifer y gwirfoddolwyr gweithredol sy’n ymwneud â nhw.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i hunaniaeth a delwedd gadarnhaol y fwrdeistref er mwyn cynyddu twristiaeth gysylltiedig â threftadaeth, adfywio seiliedig ar dreftadaeth a mewnfuddsoddi.
- Cefnogi pobl i ddarganfod, mwynhau ac archwilio ein treftadaeth a’n hamgylchedd hanesyddol trwy weithio ar y cyd â Gwasanaethau Diwylliannol y Cyngor, y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd, a’r Tîm Twristiaeth.
- Arddangos enghreifftiau o arfer gorau wrth ddelio â’n treftadaeth a’r amgylchedd hanesyddol.
- Esbonio ein treftadaeth a’i harwyddocâd trwy ddehongli dwyieithog arloesol.




Mosaig Ffordd Rufeinig Sarn Helen, Banwen

# Ein Cyd-destun Polisi

Mae'r strategaeth hon wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r ddeddfwriaeth berthnasol. Dylanwadwyd arni hefyd gan ganllawiau polisi sydd eisoes yn bodoli ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'n hanfodol bod perchnogion ein hasedau hanesyddol a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn ymwybodol o'r mesurau amddiffyn a'r cyfrifoldebau sy'n deillio o'r fframwaith hwn. Ymhlith y ddeddfwriaeth a'r polisïau perthnasol mae:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).
- Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (2023).
- Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040.
- Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 12 (2024).
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017).
- Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru mewn modd Cynaliadwy (Cadw 2011).

Mae Cadw (Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru) hefyd wedi cyhoeddi ystod eang o ddogfennau canllaw i gyd-fynd â Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a pholisi a chyngor cynllunio diweddar.



Capel Bethany, Port Talbot

# Ein Cynllun Gweithredu

Mae'r strategaeth yn cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â themâu allweddol ac amcanion y strategaeth. Bydd perfformiad y cynllun yn cael ei fonitro, a bydd y blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Edrychwch ar y strategaeth lawn i weld y rhestr gyflawn o gamau gweithredu arfaethedig.

- Datblygu cynllun hyfforddi Sgiliau Treftadaeth yn y gymuned
- Datblygu deunydd i hyrwyddo asedau'r fwrdeistref ar gyfer Lleoli Ffilmiau
- Trefnu Digwyddiad Ein Lle Treftadaeth bob blwyddyn i arddangos grwpiau treftadaeth cymunedol a'u gwaith
- Gwella mynediad i Ddociau Brunel a'r dehongli yno
- Atgyweirio ac adnewyddu Castell Margam
- Lansio Cynllun Placiau Glas i hybu gwelededd pobl alleoedd pwysig
- Uwchraddio ac adnewyddu Parc Coffa Talbot
- Newid pwrpas hen gapel yn y Creunant i greu lleoliad gofal plant Cymraeg
- Newid pwrpas Hen Lyfrgell Castell-nedd i ddarparu safle defnydd cymysg ar gyfer y diwydiannau creadigol

| Parc Gwledig y Gnoll



# Mae ein Stori’n Parhau

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i gyflawni dyheadau’r strategaeth. Gall pawb sydd â diddordeb mewn treftadaeth a’r amgylchedd hanesyddol ac angerdd yn eu cylch chwarae rhan yn hyn. Y Strategaeth Treftadaeth yw’r sylfaen ar gyfer sicrhau bod ein treftadaeth yn cael ei chadw a’i diogelu mewn modd cynaliadwy, er mwyn darparu etifeddiaeth barhaol.

Camlas Nedd

# Ein Llwyddiannau

Mae llawer wedi'i gyflawni eisoes trwy gydweithio â pherchnogion, datblygwyr a rhanddeiliaid treftadaeth allweddol. Wrth i ni symud ymlaen, bydd yr ysbryd hwn o gydweithio yn helpu i sicrhau bod modd addasu a gwella ein hasedau treftadaeth. Unwaith eto, bydd defnyddiau a rolau ystyrlon i'r asedau hyn yn ein cymunedau, a fydd yn helpu i adeiladu etifeddiaeth gadarnhaol i'r dyfodol. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn a gyflawnwyd.



**ASED TREFTADAETH:** Neuadd Gwyn, Castell-nedd (Adeilad Rhestredig Gradd II).

**DEFNYDD:** Adnewyddwyd yn ganolfan ddiwylliant o'r radd flaenaf yng nghanol Ardal Gadwraeth Tref Castell-nedd.



**ASED TREFTADAETH:** Eglwys y Groes Sanctaidd, Port Talbot (Adeilad Rhestredig Gradd II).

**DEFNYDD:** Newidiwyd ei phwrpas i greu Cartref Angladdau gan Wasanaeth Angladdau Port Talbot.



**ASED TREFTADAETH:** Llys yr Ynadon gynt, Port Talbot (Adeilad Rhestredig Gradd II).

**DEFNYDD:** Adnewyddwyd i greu 'Llys yr Harbwr' gyda lle ar gyfer swyddfeydd cwmni digidol byd-eang.

# Ein Llwyddiannau



**ASED TREFTADAETH:** Tŷ'r Tyrbinau, Parc Margam, Port Talbot (Adeilad Rhestredig Gradd II).

**DEFNYDD:** Adferwyd yn lleoliad i Gyfeillion Parc Margam ac yn ganolfan anffurfiol i ymwelwyr.




**ASED TREFTADAETH:** Y Plaza (Sinema Art Deco gynt), Port Talbot (Adeilad Rhestredig Gradd II).

**DEFNYDD:** Newidiwyd ei phwrpas i greu hwb cymunedol, yn cefnogi busnesau lleol a chyflogaeth.

# Cyflawniadau Hyd Yma

Mae'r tabl sy'n dilyn yn amlygu cyflawniadau prosiect Treftadaeth CNPT hyd yma. Er mai CBSCNPT sy'n cyflwyno'r rhain, fe'u gwnaed yn bosibl trwy gyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r rhai sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol.

Mae CBSCNPT wedi tynnu arian gan **Lywodraeth Cymru** a **Llywodraeth y DU** i gyflawni gwaith treftadaeth.

O leiaf **99** o wirfoddolwyr wedi rhoi **1,979** o oriau fel rhan o'r cynllun Grant Treftadaeth Gymunedol.

Ariannwyd y prosiect trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol gyda grant o

**£242,000**

Ysgrifennu a chynhyrchu'r strategaeth treftadaeth: **Adfer, Adfywio, Addasu: Strategaeth Treftadaeth 2024-2039.**

**38** o weithgareddau ymgysylltu a digwyddiadau rhanddeiliaid gyda chyfanswm o **359** yn bresennol ynddynt – yn cael eu rhedeg gan y Swyddog Treftadaeth Gymunedol.

**92%**

yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi dysgu sgiliau newydd o ganlyniad i'r gweithgaredd.

**78%**

o gyfranogwyr mewn gweithgareddau a gynhelir gan y prosiect yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod mynychu'r rheiny wedi gwella eu hiechyd meddwl a'u lles cyffredinol.

**24%**

o'r cyfranogwyr yn bobl anabl.

Gweithiodd y prosiect gyda **18 o sefydliadau partner.**

**300+ bobl** wedi mynychu digwyddiadau a gynhaliwyd gan sefydliadau cymunedol, eglwysi ac ysgolion fel rhan o'r cynllun **Grant Treftadaeth Gymunedol.**

Sefydlodd y prosiect gynllun Grant Treftadaeth Gymunedol.

**15** o geisiadau grant.

**12** o wobrau llwyddiannus.

**£45,000** wedi'i ddyrannu i grwpiau cymunedol.

Cymerodd tua **500** o blant ac **80** o oedolion ran mewn gweithgareddau.

**2 aelod o staff penodol i'r prosiect:** Swyddog Strategaeth Treftadaeth a Swyddog Treftadaeth Gymunedol. Cynorthwyodd y Swyddog Treftadaeth Gymunedol grwpiau i wneud ceisiadau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a chronfeydd eraill.


BLK
BT Sport